**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Mai, 2025 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) Gerwyn Owen, Lynford Thomas, Glyn Davies, Alan Henson, Daniel Evans, Glyn Davies

Y Cyng. Sir Ceris Jones.

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Lyn Williams
2. PERSONOL
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL – dim i'w datgelu**
4. **CADARNHAU COFNODION 08/04/24**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng.Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Melinda Williams a'u derbyniwyd yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**
   i. 7f (Tachwedd). **Cyfrif Banc**. Mae'r newidiadau ar gyfer bancio wedi eu cwblhau.
   ii. **11 b (Chwefror) Baw Cwn.** Rhanwyd posteri i'w harddangos yn y pentrefi.
6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

   Nododd y Cyng. Ceris Jones bod cais cynllunio Clwb Pêl Droed Felinfach yn cael ei drafod ar y 14eg o Fai. Soniodd hefyd bod y Cyngor Sir yn awyddus i werthu ysgolion Dihewyd a Chiliau Aeron cyn gynted â phosib a chyn eu bod yn dirywio.
7. **CYLLID**
   a. Tâl y Clerc mis Ebrill £217.84.
   b. Lloyds Banc Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd 10/3/25 – 9/4/25 £4.25
   c. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif Llanfihangel Ystrad 10/3/25 – 9/4/25 - £7.29
   d. Gwyn Jones £150.00 Ffioedd Archwilydd Mewnol
   e. Audit Wales £474.00 am archwiliad llawn 2023-24
   f. Praesept 1 30/4/25 - £3316.67
   g. Yswiriant i Zurich i'w dalu erbyn 1af Mehefin £576.41.
8. **CYNLLUNIO – dim i'w drafod**

9. **DI-WIFR NEUADDAU PENTREF.** Cafwydd adroddiad cyflawn gan y Cyng. Hywel Ifans a nododd opsiynau a chostau i'w hystyried. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr ac ar gynnig y Cyng. Melinda Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas **penderfynwyd** gosod cysylltiad yn ystafell gyfarfod Neuaddau Dihewyd a Felinfach ar gost o £450 yr un (amcanbris) a chost misol o £37.50+TAW yr un (amcanbris). Ystyrir sefyllfa Ysgol Cribyn yn dilyn y gwaith adnewyddu. Ar gais y Cynghorwyr, gofynwyd i'r Cyng. Hywel Ifans a fyddai BccIT yn medru cyflawni'r gwaith. Wrth ddatgan diddordeb, cadarnhaodd y Cyng. Ifans y byddai'n fodlon cydlynu'r gwaith o ymghynghori ag Openreach a sicrhau'r offer angehreidiol ond y byddai'n cyflawni'r gwaith gosod am ddim. Diolchodd y Cadeirydd iddo ac am baratoi'r adroddiad.

10. **BOCSUS BLODAU.** Nodwyd bod pentre' Pont Creuddyn yn hapus I gymryd gofal dros y bocs blodau a bod trigolion Temple Bar, Felinfach a Chribyn yn fodlon cymryd gofal dros ddyfrhau bocsus y pentre. Nodidd y Cyng. Melinda Williams y byddai'n cymryd gofal dros Ystrad Aeron a'r Cyng. Hywel Ifans yn hapus i gadw llygad ar focsus Dihewyd.

11. **SEDDI GWAG.** Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Sir Ceredigion nad oedd neb wedi ymateb i'r hysbysiadau felly gall y Cyngor fynd ati i gyfethol aelodau newydd i Ward Dihewyd a Llanfihangel Ystrad. Wrth gynnig enwau posib, penderfynwyd cadarnhau enwebiadau yn y cyfarfod nesaf.

12. **CINIO'R CADEIRYDD.** Penderfynwyd ar yr 20fed o Fehefin.

13. **GOHEBIAETH**

   i. Derbyniwyd neges gan Nia Jones o Bont Creuddyn yn son am ddifrod i'r Arosfan Bws. Yn dilyn ymweliad gan y Cyng. Daniel Evans i asesu'r sefyllfa, ac yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gofyn i Alan Edwards osod ffenestri perpex yn yr arosfan.

   **ii.** Darllenwyd llythyr gan Amddiffyn Bronglais yn son am yr ymgynghoriad i drafod y gwasanaethau iechyd. Penderfynwyd anfon linc i'r ymgynghoriad a nododd y Cyng. Ceri Jones bwysigrwydd yr ymghyngoriad ac anogodd bawb i'w gwblhau. **Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn anfon linc i bawb pan fydd yr ymghynghoriad yn agor ar y 29ain o Fai.**

   iii. Derbyniwyd neges gan y PCSO Liz Jenkins yn gofyn am drefnu ymweliad â'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd ei gwahodd i'n cyfarfod nesaf ar y 10fed o Fehefin.

## 14. UNRHYW FATER ARALL

**a.** Nododd y Cyng. Gerwyn Owen bod cyflwr yr hewl sy'n arwain at yr Eglwys mewn cyflwr difrifol. **Penderfynwyd cysylltu â'r Sir.**

**b.** Nododd y Cyng. Alan Henson bod golau stryd wrth stâd Cysgod y Gaer, Cribyn ddim yn gweithio. **Penderfynwyd cysylltu â'r 'Sir**

**c.** **Bont Glanafon.** Cododd y Cyng. Alan Henson ei bryderon unwaith eto am y bont. Penderfynwyd cysylltu â Jonathan Hughes bu mas yn 'neud archwiliad o'r bont ym mis Mai 2024**.**

**d.** **Trlithiadau Hewl Troedyrhiw.** Nododd y Cyng. Alan Henson bod cyflwr y tir ar ochor yr hewl dal yn fregus an angen sylw. **Penderfynwyd cysylltu â'r Sir.**

**e.** **Arwydd 'Croeso i Felinfach'.** Nododd y Cyng. Melinda Williams bod yr arwydd wedi diflannu ers codi'r Ysgol newydd. Cadarnhaodd y Cyng. Ceris Jones ei bod wedi codi'r mater ond **penderfynwyd cysylltu â'r Sir**

f. Yn dilyn y sgwrs am osod d-wifr yn y neuaddau, **penderfynwyd cysylltu ag Openreach** parthed y posibilrwydd o osod ffeiber yn Dihewyd.

## 15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF a'r AGM

Mehefin 10fed yn Neuadd Dihewyd.